

Diweddariad Cymorth Lles (2025 – 2026)

Ar gyfer Atgyfeirwyr

Mae disgwyl i'n prosiect lles ddod i ben ar 31 Mawrth 2026, nid oes gennym unrhyw ddiweddariadau ar hyn o bryd ar gyllid pellach i barhau y tu hwnt i hyn. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'n cefnogaeth, rydym wedi rhestru rhai newidiadau allweddol isod ac wedi cyfathrebu hyn â'r cyfranogwyr presennol.

Atgyfeiriadau Newydd

- Gallwn dderbyn atgyfeiriadau ar gyfer cymorth lles 1:1 hyd at 31.10.2025.
- Gallwn gefnogi pobl gan gynnwys atgyfeiriadau newydd a dderbynnir erbyn 31.10.2025 tan 31.01.2026.
- Y dyddiad cau i ni atgyfeirio at gwnsela sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth yw 14.11.2025. Rhowch amser i ni gwrdd â'r person ac asesu ei addasrwydd os gwelwch yn dda.
- Os oes angen cymorth lles y tu hwnt i'r dyddiadau hyn, cyflwynwch ffurflen atgyfeirio trwy Triage.
- Efallai y byddwn yn gallu darparu galwadau ffôn misol dros dro nes bod gennym gadarnhad o gyllid. Gall rhai gweithgareddau yn y cyfamser gynnwys cyfeirio at ein cyrsiau hyfforddiant mewnol ac ystyried cymorth y gallai fod ei angen ar berson o fis Ebrill 2026 ymlaen.

Ar gyfer Cyfranogwyr

Mae disgwyl i'n prosiect lles ddod i ben ar 31 Mawrth 2026, nid oes gennym unrhyw ddiweddariadau ar hyn o bryd ar gyllid pellach er mwyn parhau y tu hwnt i hyn. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'n cefnogaeth 1:1, rydym wedi rhestru rhai newidiadau allweddol isod i roi digon o amser i chi ystyried y camau nesaf i chi.

Cefnogaeth 1:1 Parhaus

- Os ydych yn derbyn cefnogaeth 1:1 barhaus gennym ni ar hyn o bryd, gall hyn barhau tan 31.01.26 os oes angen.
- Os ydych yn derbyn cymorth ar hyn o bryd, byddwn yn trefnu dal i fyny i drafod sut yr hoffech ddefnyddio unrhyw sesiynau sy'n weddill.

- Eich cyfrifoldeb chi yw mynychu'r sesiynau dal i fyny a thrafod unrhyw gefnogaeth yr hoffech chi.
- Byddwch yn ymwybodol bod ein staff i ffwrdd dros gyfnod y Nadolig. Rydym wedi darparu manylion cyswllt ar gyfer unrhyw wasanaethau ar yr ail dudalen os oes eu hangen arnoch.
 - **Tristan (Gogledd) Gwyliau:** 19.12.2025 – 05.01.2026
 - **Mandy (De) Gwyliau:** 22.12.2025 – 05.01.2026

Parhad y Prosiect

- Os bydd y prosiect presennol yn parhau am flwyddyn arall, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn cyn gynted ag y gwyddom. Yna gallwn drafod yr hyn yr hoffech chi ganolbwyntio arno ar gyfer gweddill ein sesiynau.
- Os bydd prosiect newydd yn disodli ein prosiect lles presennol, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn cyn gynted â phosibl, yna gallwn drafod a ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer hyn os hoffech barhau â'r gefnogaeth.
- Os oes angen cymorth arnoch neu os hoffech gadw mewn cysylltiad rhwng gorffen sesiynau 1:1 erbyn 31.01.2026, a dechrau prosiect newydd o 01.04.2026, gallwn gynnig galwad ffôn 20 munud misol i wirio pethau. Efallai y byddwn yn gallu cynnig cefnogaeth 1:1 cyn 01.04.2026 os oes gennym gadarnhad o gyllid. Nid yw hyn wedi'i warantu.
- Waeth beth yw parhad neu brosiect newydd, efallai na fyddwn yn gallu cynnig popeth yr ydym yn ei gynnig ar hyn o bryd. Byddwn yn trafod unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arnoch.
- Os bydd ein prosiect yn cael ei adnewyddu ac yn cynnwys cwnsela, ni allwn wneud unrhyw atgyfeiriadau cyn Ebrill 2026.
- Os na fydd y prosiect yn parhau y tu hwnt i 31.03.2026, bydd yr holl gefnogaeth yn dod i ben erbyn 31.01.2026 fan bellaf. Byddwn yn trafod eich cyfeirio at unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arnoch.
- Os byddwch yn colli sesiwn dal i fyny neu alwad ffôn heb rybudd o flaen llaw, ni fyddwn yn gallu aildrefnu, bydd i fyny i chi gysylltu os oes angen cymorth pellach arnoch, a byddwch yn ymwybodol y bydd yn debygol y bydd oedi am hyn. Mae croeso i chi ail-gyfeirio eich hun trwy Triage a chael eich rhoi ar y rhestr aros ar gyfer prosiect newydd posibl.

Cwestiynau Cyffredin

Pryd fyddwch yn gwybod am y camau nesaf neu'r cyllid? Nid oes gennym ddyddiad penodol ond byddwn yn eich diweddarau.

A allaf gael mynediad at Gwnsela? Bydd angen atgyfeiriadau at gwnsela erbyn 14.11.2025, os bydd ein prosiect yn parhau, gallwn eich rhoi ar restr aros os byddwn yn cynnig cwnsela yn y dyfodol.

Nid wyf wedi cofrestru gyda chi; a allaf gael cefnogaeth o hyd? Cwblhewch ein Ffurflen Triage, byddwn yn cymryd eich manylion. Os hoffech drefnu galwad ffôn fer i drafod cefnogaeth gydag un o'n Gweithwyr Lles, rhowch wybod i ni. Mae'r alwad ffôn hon yn gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau, yn hytrach na dechrau cefnogaeth.

Sut olwg fydd ar brosiect newydd? Nid ydym yn siŵr, mae'n debygol y bydd prosiect newydd yn canolbwyntio mwy ar gyflogaeth. Ystyriwch a ydych yn teimlo'n barod i wneud cais am swyddi a pha gefnogaeth sydd ei angen arnoch. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, siaradwch â Tristan (Gogledd) a Mandy (De).

Rhifau Ffôn a Chefnogaeth Argyfwng

Llinell Gymorth Iechyd Meddwl y GIG: 111 Pwyswch 2 (24/7, 365 diwrnod y flwyddyn)

Samariaid: 116 123 / jo@samaritans.org / Sgwrs ar y we ar-lein (24/7, 365 diwrnod y flwyddyn)

Cymorth Argyfwng: [Derbyn Help Brys Nawr](#) | [Cymorth Iechyd Meddwl](#) | [Melo Cymru](#)

Llinell Wrando Iechyd Meddwl C.A.L.L.: 0800 132 737 / Tecstiwch 'help' i 81066

Shout (Tecst) - Tecstiwch 'Shout' i 85258

CALM (Dynion) – 0800 58 58 58

Llwybrau Newydd (Trais Rhywiol) – 01685 379310

Cam-drin Domestig (Byw Heb Ofn) - 0808 8010 800

Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent – 0333 999 3577

Siaradwch â Frank - 0300 1236600 / [Gwybodaeth onest am gyffuriau](#) | [FRANK](#)

Dan 24 / 7 – 0808 808 2234 / dan@helplines.wales / <https://dan247.org.uk/cy/hafan/>